

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Chwefror 2020 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield JP MBE, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms V. Roberts, R. Turner, a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol

Y Cyngorydd T. Thomas (Sylwedydd)

40. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr J. Ball, Mrs J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, Mrs. P.M. Jones a Ms J. McAlpine, Miss S. Roberts, ac A.J. Rutherford.

41. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
41.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Hen safle'r Heulfan, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K.R. Jones T. Thomas</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0674</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu llyn/pwll i gefnogi cyfleusterau tonfyrddio a chwrs offer chwythadwy tymhorol gyda chaffi, toiledau a chyfleusterau atebol cysylltiedig ar gyfer y cyhoedd.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. Simon Jones, Pro Kitesurfing</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
41.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 30 Elwy Street, y Rhyl</p>

	<p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0864</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Newid defnydd a newidiadau i siop llawr gwaelod i ffurfio un fflat ar y llawr cyntaf a dau fflat ar yr ail lawr.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. Luke Denver, Adever, Uned 7F Stad Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad yn amodol ar ddarparu dull addas o ddianc o'r fflatiau llawr cyntaf a'r ail lawr os oes tân.</i></p>
41.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 141 Ffordd Arfordir y Rhyl, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Brynhedydd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> B. Mellor R. Turner</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/1090</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad a gwneud newidiadau i dŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. Euros Jones o Llest Wen, Ffordd Eglwyswen, Dinbych</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
41.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 28-30 Stryd Fawr, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2020/0008</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Fffurfio man eistedd allanol mewn perthynas â Costa Coffee</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. Bharet Patel, 10 Brightside Lane, Sheffield.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad yn amodol ar amod yn gofyn am symud y man eistedd allanol yn ystod digwyddiadau canol y dref a marchnadoedd</i></p>

42. **POLISI CYNLLUNIO – YMLEDIAD LLETY O ANSAWDD GWael**

Cyfeiriodd Aelod at ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor Cynllunio (cofnod rhif 24 3ydd Hydref 2018 yn cyfeirio) mewn perthynas â'r nifer o eiddo sy'n cael eu trosi yn fflatiau o ansawdd is a'r effaith negyddol gronnu bosibl ar y cyflenwad tai

cyffredinol yn y Rhyl. Nodwyd, tra bo ceisiadau unigol yn dderbyniol mewn termau cynllunio, roedd effaith gronnus eiddo o'r fath yn achos o bryder, yn enwedig pan gymerir i ystyriaeth ganlyniadau Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2019 a ryddhawyd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i godi'r mater unwaith eto.

43. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: